Gweithgaredd Cynilo

Darllenwch y Daflen Ffeithiau FB9 - Cynilo, a Thaflen Ffeithiau FB10 - Gair o Gyngor ynghylch Cynilo, yna cwblhewch y canlynol:

Yr hyn sy'n bwysig wrth gynilo arian yw gosod pethau yn ôl trefn eu pwysigrwydd - edrych ar yr hyn sydd ei angen arnoch neu'r hyn sy'n bwysig, a'r hyn y gallech wneud hebddo.

Gweithgaredd 1

Myfyriwr yw Nilam sydd newydd symud o'i chartref ac sydd bellach yn rhannu fflat ar rent gyda ffrind. Mae ei theulu yn rhoi lwfans bychan yn wythnosol iddi, ac mae ganddi waith rhan amser, ond nid yw'n ennill digon o arian i dalu am yr holl gostau. Ar hyn o bryd, mae'r rhain yn cynnwys:

Bwyd	Teledu	Bil Ffôn	Gwyliau
Sinema	Ffioedd coleg	Costau y car a phetrol	Rhent
Bil trydan	Siop trin gwallt	Pryd allan	Dillad
Bar ewinedd	Yswiriant cartref	Cynilion	Llyfrau coleg
Noson allan yn y clwb nos	Anrhegion ar gyfer y teulu	Chwaraewr CD a cherddoriaeth	

Mae Nilam am arbed arian. Trafodwch pob un o'r costau a gosodwch nhw yn ôl trefn eu pwysigrwydd.
Pa bethau allai Nilam wneud hebddynt?

Gweithgaredd 2

Meddyliwch am y pethau ydych chi neu eich teulu wedi'i wneud dros y misoedd diwethaf. O dan bob un o'r penawdau canlynol, disgrifiwch beth fuoch chi'n ei wneud a beth wnaethoch chi wario: **dillad, adloniant, trafnidiaeth a bwyd**.
Beth allech chi fod wedi'i wneud yn wahanol i arbed arian?

Gweithgaredd 3

Lluniwch gynllun cynilo personol ar gyfer yr wythnos neu'r mis nesaf.

- Ysgrifennwch yr holl ffyrdd fyddwch chi'n rhoi cynnig arnyn nhw i ennill ac arbed arian, neu dorri lawr ar y gwario. Yna lluniwch gyllideb i ddangos beth ydych yn fwriadu ei ennill neu ei wario yn ystod y cyfnod hwn. Fe allech ddefnyddio Taflen Waith WB5 - Manylion am y Gyllideb.
- Cadwch gofnod gofalus o'r hyn ydych wedi'i wario a'i ennill trwy gydol y mis. Cadwch filiau siopa a dogfennau ariannol eraill a fydd yn help i chi gofio faint ydych wedi'i wario.
- Ar y diwedd, cymharwch gynllun eich cyllideb gyda'r hyn ydych wedi'i wir ennill, a'i wario.
- Sut allech chi addasu eich cyllideb pe bai angen i chi gynilo mwy o arian?

Gofynnwch i'ch rhieni eich helpu gyda'r gweithgareddau hyn

Darparwyd gan Nationwide – ar gael ar www.NationwideEducation.co.uk